# Crynodeb o Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol:

## Asesiad o reolaeth gynaliadwy o'n adnoddau naturiol

Medi 2016



www.cyfoethnaturiol.cymru/sonarr


# Ffordd newydd o weithredu

## Yr Adroddiad hwn ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Mae'r ffordd hon o weithredu yn torri tir newydd. Mae'r adroddiad yn amlinellu sefyllfa adnoddau naturiol Cymru. Mae'n asesu i ba raddau y mae adnoddau naturiol yng Nghymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, ac yn argymell ffordd ragweithiol o greu cydnerthedd. Ac – am y tro cyntaf – mae'r adroddiad yn creu'r cysylltiad rhwng cydnerthedd adnoddau naturiol Cymru a lles pobl Cymru.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn edrych ar sut mae'r pwysau ar adnoddau naturiol Cymru yn arwain at risgiau a bygythiadau i les cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd tymor hir, fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym yn edrych ar y materion allweddol, yn ogystal â'r cyfleoedd i ganfod atebion integredig sy'n cynnig manteision amryfal.

Trwy gydol yr adroddiad, rydym yn tynnu sylw at y mannau hynny lle ceir bylchau yn y dystiolaeth. Rydym yn nodi hefyd lefel ein hyder yn y dystiolaeth yr ydym wedi'i defnyddio.



# Dechrau ar daith…

Ar sail y dystiolaeth yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, bydd Gweinidogion Cymru yn amlinellu eu blaenoriaethau ar gyfer polisïau i fynd i'r afael â rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn datblygu datganiadau ardal gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid er mwyn rhoi'r polisïau hyn ar waith.

Dyma ddechrau ein taith. Bydd y modd yr ydym yn adrodd ar sefyllfa adnoddau naturiol yn datblygu ac yn esblygu gydag amser. Mae CNC eisiau gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i wella'r modd yr ydym yn asesu sut mae Cymru'n rheoli ei hadnoddau naturiol. Mae arnom eisiau clywed a oes tystiolaeth yr ydym wedi'i methu, a beth yw barn pobl am ein hasesiadau o gydnerthedd a risg.


Drwy weithio ynghyd, gallwn wella ein dealltwriaeth o'r hyn y mae angen inni oll ei wneud i wynebu'r heriau sydd o'n blaenau – yn enwedig felly y risgiau a achosir gan y newid yn yr hinsawdd a'r bygythiadau i fioamrywiaeth.

O'r Llywodraeth i'r sector cyhoeddus i fusnesau i unigolion – mae angen inni oll chwarae ein rhan. Gyda'n gilydd, gallwn wella cydnerthedd adnoddau naturiol a lles yng Nghymru.



# Pam mae adnoddau naturiol yn bwysig?

Mae adnoddau naturiol ac ecosystemau Cymru wrth graidd popeth a wnawn. Mae hyn wedi arwain at heriau megis llygredd a newid yn yr hinsawdd, ac yn achosi difrod i'r ecosystemau sy'n darparu'r pethau sydd angen arnom.




Pan fydd adnoddau naturiol yn ffynnu, bydd cymdeithas a'r economi yn ffynnu hefyd. Gall adnoddau naturiol ac ecosystemau ein cynorthwyo i leihau llifogydd, gwella ansawdd yr aer a darparu deunyddiau ar gyfer adeiladu. Maent hefyd yn darparu cartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt, ac yn rhoi tirweddau eiconig i ni eu mwynhau, sydd hefyd yn hybu'r economi drwy gyfrwng twristiaeth.

Fodd bynnag, mae ein hadnoddau naturiol yn dod dan bwysau cynyddol – gan newid yn yr hinsawdd, poblogaeth sy'n tyfu a'r angen i gynhyrchu ynni. Mae Cymru'n wynebu llu o heriau: diogelu cyflenwad ynni a thanwydd sy'n isel o ran carbon, creu swyddi ac incwm, ymdrin â thlodi ac anghydraddoldeb, llifogydd a sychder, a gwella iechyd pobl.

Mae adnoddau naturiol ac ecosystemau a reolir yn wael yn cynyddu'r risgiau tymor hir i'n lles. Mae gwella rheolaeth Cymru ar adnoddau naturiol yn golygu y byddwn mewn gwell sefyllfa i allu mynd i'r afael â'r heriau hyn.

Mae angen inni oll warchod ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau fel y gallant barhau i roi'r pethau y mae arnom eu hangen inni. Gall unrhyw benderfyniadau a wnawn gael effaith ganlyniadol ar yr amgylchedd yn ei gyfanrwydd, yn awr ac am genedlaethau lawer i ddod.

# Manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol…

Mae adnoddau naturiol Cymru yn rhoi llu o fanteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i ni. Er enghraifft:

- **£385 miliwn** o **amaethyddiaeth** i economi Cymru bob blwyddyn. Mae'r ffigwr yn tanategu'r £6.5 biliwn o drosiant blynyddol a £1.55 biliwn o werth ychwanegol gros sydd wedi'i briodoli i'r sector cynhyrchiad ar y fferm a gweithgynhyrchu bwyd.
- **951 miliwn litr** o **ddŵr yfed** bob dydd.
- **1.5 miliwn tunnell** o **bren heb ei sychu** bob blwyddyn, gan wneud adeiladu yn haws ac yn rhatach.
- **£499.3 miliwn** o'r sector* **goedwigaeth** i economi Cymru (*yn cynnwys coedwigaeth a thorri coed, gweithgynhyrchu pren a chynhyrchion o bren a chorc, a gweithgynhyrchu papur a chynnyrch papur).
- **14 miliwn tunnell** o **agregau** bob blwyddyn, ar gyfer adeiladu a defnyddiau eraill.
- **8,919 o oriau giga-watt** o ynni o **ffynonellau adnewyddadwy**, a'r ffigwr ar gynnydd, gan greu diwydiant ynni adnewyddadwy sy'n cyflogi 2,000 o bobl.
- **410 miliwn tunnell** o **garbon** yn cael ei storio mewn pridd i amsugno allyriadau a diogelu rhag newid yn yr hinsawdd.
- **£2,870 miliwn** mewn **twristiaeth** i Gymru.
- **28% o oedolion** yn cyrraedd y lefel a argymhellir o **weithgarwch corfforol** drwy weithgareddau awyr-agored.
- **£18.2 miliwn** mewn **manteision iechyd** i bobl sy'n cerdded Llwybr Arfordir Cymru.
- **£840 miliwn** a **30,000 o swyddi** o **sector yr amgylchedd hanesyddol**.

# Newid parhaus…

Mae adnoddau naturiol Cymru yn newid yn barhaus. Fel cymdeithas, rydym wedi bod yn defnyddio gormod o'r adnoddau hyn – ar gyfer busnes, technoleg ac yn ein bywydau o ddydd i ddydd. Mae hyn wedi arwain at heriau megis llygredd a newid yn yr hinsawdd, ac wedi achosi niwed i'r ecosystemau sy'n darparu ein hadnoddau ac yn eu rheoleiddio.

Daw'r effeithiau hyn o ganlyniad i'r penderfyniadau y mae pobl yn eu gwneud bob dydd. Maent yn risg i gydnerthedd ecosystemau Cymru, a fydd yn effeithio ar les pobl yn awr ac yn y dyfodol.

**Er mwyn lleddfu'r pwysau hyn, mae angen inni wneud pethau'n wahanol.**



# Sefyllfa adnoddau naturiol Cymru

Mae arwynebedd daear Cymru yn **2,078,224 hectar**. Mae ein daear yn cynnal ein diwydiant amaethyddol ac yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt. Mae cynefinoedd yn helpu diffinio tirwedd Cymru, gydag elfennau eiconig megis ein harfordiroedd a'n hucheldiroedd trawiadol, coetiroedd, corstiroedd a rhosydd eang, afonydd a llynnoedd, a'n tir amaethu eang.

Mae ardal forol Cymru yn anferth, ac yn cwmpasu **41%** o diriogaeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhan o Fôr Iwerddon, y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel, ac mae'n gartref hefyd i lu o wahanol gynefinoedd a rhywogaethau.

Mae'r adroddiad llawn yn edrych yn fanwl ar sefyllfa adnoddau naturiol Cymru, gan gynnwys anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill, ansawdd yr aer, adnoddau dŵr, priddoedd a mwynau. Mae hefyd yn edrych ar gyflwr ecosystemau Cymru, megis mynyddoedd, glaswelltiroedd, coetiroedd ac amgylcheddau dŵr croyw, morol a threfol.

Rydym wedi gwneud camau breision yn sgil degawdau o waith i ddeall a diogelu ein hadnoddau naturiol. Heddiw, mae ein hafonydd a'n traethau yn lanach, a'n haer yn iachach. Mae ein tirweddau bendigedig yn rhoi cyfleoedd o safon fyd-eang i bobl Cymru o ran hamdden a natur, ac yn denu miliynau o ymwelwyr bob blwyddyn.

Fodd bynnag, ceir rhwng **40,000** a **50,000** o farwolaethau cynnar yn y DU bob blwyddyn yn sgil llygredd aer. Mae llawer o'n planhigion a'n bywyd gwyllt yn dirywio. Bu i Gymru – ynghyd â gweddill y DU a gwledydd eraill – fethu cwrdd ei thargedau bioamrywiaeth cenedlaethol a rhyngwladol yn 2010, ac mae'r dirywiad wedi parhau mewn llawer o achosion.

Rydym hefyd yn gweld newidiadau o ran cyfanswm y glawiad a pherygl cynyddol yn sgil llifogydd. Mae'r ehangu ar drefi a dinasoedd Cymru a'r arfer o osod concrid dros erddi wedi lleihau gallu ardaloedd trefol i amsugno glaw, lleihau llifogydd a darparu cartrefi i fywyd gwyllt a mannau gwyrdd i bobl. Mae bod ymhellach oddi wrth fannau gwyrdd hefyd yn cael effaith ar les corfforol a meddyliol pobl.

Mae Cymru wedi gweithio'n galed i ganfod atebion, ond mae mwy o waith i'w wneud. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig cyfle i amlinellu'r dystiolaeth ar gydnerthedd ein hadnoddau naturiol, dangos y risgiau i les, tynnu sylw at gyfleoedd newydd i'w datblygu, ac annog pobl i weithio gyda'i gilydd i reoli ein hadnoddau naturiol yn well.

**Er ei bod yn amlwg fod Cymru'n wynebu heriau sylweddol, gallwn wneud gwelliannau:** diogelu storfeydd carbon i warchod rhag newid yn yr hinsawdd ac amsugno allyriadau yn y dyfodol; cynnal capasiti cynhyrchu bwyd; lleihau'r risg o lifogydd; cynnal arbenigedd ein tirweddau; a gwella ansawdd ein dŵr a chysylltedd ein cynefinoedd i alluogi rhywogaethau i newid lleoliad er mwyn goroesi.

**Bydd newid y ffordd rydym yn rheoli adnoddau naturiol yn ein galluogi i wella eu cydnerthedd. .**

# Beth yw ystyr ‘cydnerthedd ecosystemau’?

Mae ‘cydnerthedd ecosystemau’ yn golygu pa mor dda y gall ecosystemau ymdopi ag unrhyw darfu arnynt – boed drwy ei wrthsefyll, adfer yn ei sgil, neu addasu i’r tarfu hwnnw. Gall ecosystemau cydnerth ddal ati i ddarparu gwasanaethau a manteision er gwaethaf y tarfu hwn.

Os nad ydynt yn gydnerth, nid yw ecosystemau yn gallu gweithio a darparu gwasanaethau a manteision. Er enghraifft, os mai dim ond coed o’r un rhywogaeth ac oed sy’n cael eu plannu mewn coedwig, mae’n bosibl y gallai’r holl goed farw o un afiechyd. Yna ni fyddai’r goedwig yn gallu darparu pren, storfeydd carbon, hamdden a llu o wasanaethau a manteision eraill gwerthfawr.

Nod fframwaith deddfwriaethol adnoddau naturiol newydd Cymru yw creu ecosystemau cydnerth fel y gallant ddarparu manteision ychwanegol i les pobl.

## Cydnerthedd ecosystemau yng Nghymru…


Yn gyffredinol, mae **amrywiaeth** yn dirywio, ac mae colli cynefinoedd a rhywogaethau yn arwydd o hyn. Mae ‘graddfa’ rhai cynefinoedd wedi dirywio’n sylweddol hefyd. Ceir canlyniadau cymysg o ran ‘cyflwr’, tra bod ‘cysylltedd’ wedi lleihau’n arw.

Mae gan bob ecosystem broblemau ag un neu ragor o nodweddion cydnerthedd. Mae hyn yn golygu y gall eu capasiti i ddarparu gwasanaethau a manteision ecosystemau fod mewn perygl. Ar sail ein hasesiad ni, ni ellir dweud bod gan unrhyw ecosystem yr holl nodweddion sydd eu hangen ar gyfer cydnerthedd.

**We need action to build resilience and adaptive management of our natural resources.**

# Adnoddau naturiol a lles – creu’r cysylltiadau…

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu saith nod llesiant sy’n disgrifio’r ‘math o Gymru a garem’. Mae’r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn ystyried sut mae adnoddau naturiol ac ecosystemau yn cefnogi’r saith nod llesiant hyn. Dyma’r tro cyntaf i’r dadansoddiad hwn gael ei wneud.




© Llywodraeth Cymru

# Sut mae adnoddau naturiol yn cefnogi'r saith nod llesiant?

Isod ceir rhai enghreifftiau o'r cyfraniad aruthrol y mae adnoddau naturiol yn ei wneud i les...

1 **Cymru Gydnert** – Mae bioamrywiaeth, mynyddoedd, gweundiroedd a rhosydd, glaswelltiroedd lled-naturiol, coetiroedd, mannau gwyrdd trefol, afonydd, nentydd, llynnoedd a gwlyptiroedd, yr arfordir ac ecosystemau morol oll yn cyfrannu at gefnogi gallu Cymru i addasu i newid yn yr hinsawdd.

2 **Cymru Lewyrchus** – Mae adnoddau naturiol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gweithgarwch economaidd. Er enghraifft, mae twristiaeth bywyd gwyllt a gweithgareddau awyr-agored i Gymru yn darparu tua 206,000 o swyddi ac amcangyfrifir ei fod yn werth £6.2 biliwn. Yn 2013, bu i 3.5 miliwn a mwy o ymwelwyr â'n harfordir ddod â £602 miliwn i'r economi, a rhagwelir twf o 10%. Mae tri Pharc Cenedlaethol Cymru yn denu 12 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, a'r rheini'n gwario £1 biliwn ar nwyddau a gwasanaethau.

3 **Cymru Iachach** – Mae adnoddau naturiol yn gwneud cyfraniad sylweddol i iechyd corfforol a lles meddyliol pobl yng Nghymru. Er enghraifft, mae coed yn helpu i amsugno llygrwyr a gwella ansawdd yr aer, sydd yn gallu effeithio ar iechyd pobl os yw'n wael. Mae mynediad i natur a mannau gwyrdd yn cael effeithiau cadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol.

4 **Cymru Gyfartal** – Mae mynediad cyfartal i ecosystemau sy'n darparu gwasanaethau diwylliannol yn cyfrannu at gydraddoldeb yng Nghymru. Mae arnom eisiau sicrhau cyn lleied â phosibl o effeithiau negyddol a chynifer â phosibl o effeithiau cadarnhaol i bawb. Ar hyn o bryd, nid yw mynediad wedi'i ddosbarthu'n gyfartal (er enghraifft, nid yw pawb yn byw'n agos at fannau gwyrdd, ac mae rhai pobl yn byw mewn ardaloedd lle mae ansawdd yr aer yn well nag eraill).

5 **Cymru o Gymunedau Cydlynus** – Dangoswyd bod cynnwys cymunedau yn y gwaith o reoli eu parciau a'u coetiroedd lleol yn gwella cydlyniant y gymuned ac yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

6 **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu** – Mae tirweddau wedi chwarae rhan arwyddocaol o ran datblygu arferion diwylliannol unigryw, megis technegau adeiladu lleol yn dibynnu ar ddefnyddiau lleol, ynghyd â chelf a llenyddiaeth leol benodol.

7 **Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang** – Mae'r amgylchedd yn darparu ein holl adnoddau o ran defnyddiau ond rhaid i ni sicrhau mai dim ond ein cyfran deg yr ydym yn ei defnyddio.

**O'r amgylchedd i swyddi, o iechyd i gydraddoldeb, o ddiwylliant i adnoddau... hyd yn oed i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol... mae adnoddau naturiol yn amlwg yn gwneud cyfraniad sylweddol i les yng Nghymru.**

# Canfod rheolaeth anghynaliadwy...

Mae'r defnydd o'r rhan fwyaf, os nad yr oll, o adnoddau naturiol Cymru yn cael ei reoleiddio neu ei reoli. Fodd bynnag, ceir gwendidau neu fylchau yn y fframwaith rheoleiddio a'r rheolaeth, ac yn y wybodaeth sy'n sail i wneud penderfyniadau. Gallai'r rhain greu problemau posibl o ran cydnerthedd ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu.

**Mae'r adroddia yn archwilio a ydym yn defnyddio ac yn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. I wneud hyn, mae'n defnyddio'r meini prawf canlynol:**

- Mae adnoddau naturiol yn dirywio'n barhaus neu'n cael eu defnyddio'n gynt nag y gellir eu hailgyflenwi;
- Mae iechyd a chydnerthedd ein hecosystemau yn cael ei gyfaddawdu – mae hyn yn cynnwys targedau ddim yn cael eu cwrdd, neu 'derfynau' mewn perygl o gael eu torri;
- Ni wneir y gorau o fanteision gwasanaethau ecosystemau;
- Nid yw cyfraniad gwasanaethau ecosystemau at les yn bodloni ein hanghenion sylfaenol, neu mae'n dirywio.



**Rydym wedi dewis ystyried y gweithgareddau canlynol sy'n adlewyrchu ehangder y gwaith rheoli adnoddau naturiol:**

1 **Gwastraff** - Er bod Cymru'n perfformio'n dda o ran nodau a thargedau statudol Tuag at Ddyfodol Diwastraff Llywodraeth Cymru, ceir cyfleoedd sylweddol o hyd i leihau, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff ledled Cymru. Drwy wneud hyn, bydd busnesau'n creu arbedion costau sylweddol. Bydd gwella'r rheolaeth ar wastraff hefyd yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd. Byddai hyn yn darparu manteision amgylcheddol, iechyd a lles cymdeithasol.

2 **Dŵr** – Nid yw Cymru, hyd yma, yn rheoli dŵr yn gynaliadwy. Mae hyn yn creu risgiau megis llai o ddŵr ar gael i amaethyddiaeth, busnesau a chartrefi, safon dŵr is, llifogydd a sychder, a risgiau i bysgodfeydd, ecoleg afonydd, a hamddena. Gallai'r risgiau hyn arwain at gostau uwch. Er enghraifft, yn 2015, cafwyd llifogydd ar ffyrdd a chysylltiadau rheilffordd pwysig, a chollwyd ceblau trydan a phibellau nwy, gan darfu ar gymunedau a chreu costau ychwanegol i gwmnïau cyfleustodau.

3 **Aer** - Ceir bylchau yn y rheolaeth ar ansawdd aer Cymru sy'n parhau i effeithio ar ecosystemau a lles. Er enghraifft, traffig yw'r llygrwr mwyaf yn ein gofodau trefol. Bydd cynyddu ein dealltwriaeth o sut mae amgylcheddau trefol yn effeithio ar lygredd traffig, a'r effaith ar iechyd, yn helpu cynllunwyr i wella mesurau rheoli traffig a dyluniad gofodau trefol.

4 **Pridd a thir** – Mae angen i ni gynyddu 'r dealltwriaeth o bwysigrwydd pridd a'i ansawdd ymhob defnydd tir. Byddai rheoli priddoedd a defnydd tir yn fwy effeithiol yn lleihau ein risg o beidio gallu tyfu bwyd a chael cyflenwad dŵr glân, hinsawdd sefydlog a llawer o fanteision pwysig eraill.

5 **Coetiroedd** – Mae'r rhagolygon yn darogan cwymp o ran faint o bren fydd ar gael os nad ydym yn creu coetiroedd newydd ac yn dod â rhagor o goetiroedd dan reolaeth. Mae hyn yn peri risg i'r cyflenwad o goed a'r manteision ehangach y mae coetiroedd yn eu darparu. Mae llawer o'r manteision hyn yn cael eu cymryd yn ganiataol ac yn cael eu tanbrisio, megis storio carbon er mwyn diogelu rhag newid yn yr hinsawdd. Felly ceir llai o gymhelliad i reolwyr tir ystyried eu gwerth wrth wneud penderfyniadau am ddefnydd tir. Gallai hyn effeithio ar wasanaethau ecosystemau sy'n cael eu darparu gan goetiroedd, ac ar les i'r dyfodol.

6 **Ynni** – Mae'n bwysig arbed ynni a chanfod ffyrdd o gynhyrchu trydan ar gostau amgylcheddol is. Os awn i'r afael â hyn, byddwn yn sicrhau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gallu cael gafael ar ynni. Byddwn yn gallu lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a dechrau mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, colledion amgylcheddol a materion llygredd yn ehangach, a'u heffeithiau ar les.

7 **Amgylcheddau trefol** – Bu'n anodd creu darlun cyflawn o'r rheolaeth ar ein systemau trefol. Mae hwn yn fwlch y mae angen ymdrin ag ef. Os yw Cymru'n mabwysiadu trefn integredig o reoli systemau trefol, gallwn fanteisio i'r eithaf ar y manteision y mae seilwaith gwyrdd yn eu darparu, ac felly leihau risgiau a chostau o ran lles.

8 **Moroedd a'r arfordir** – Mae llawer o'r ddeddfwriaeth ynghylch rheoli'r amgylchedd morol yn newydd, ac nid oes modd gwerthuso ei llwyddiant eto. Rydym yn canolbwyntio yn awr ar reolaeth integredig yr ardaloedd hynny lle mae'r tir yn cwrdd â'r môr.

# I grynhoi…

Mae'n amlwg fod amrywiaeth o faterion, sy'n anodd i'w rheoli neu eu rheoleiddio, yn cyfrannu at leihau cydnerthedd ecosystemau Cymru. Mae hyn yn effeithio ar ddarparu manteision ecosystemau, sydd yn ei dro yn effeithio ar les pobl.

I grynhoi, mae ein gweithredoedd fel cymdeithas yn gostwng ein hansawdd bywyd ni ac ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol.

Nid yw gwir werth adnoddau naturiol ac ecosystemau yn cael ei ystyried yn ddigonol mewn amrywiol brosesau gwneud penderfyniadau. Dan Ddeddf yr Amgylchedd, mae gan Gymru'r cyfle bellach i fynd i'r afael â'r system ddigyswllt hon a dilyn trefn fwy integredig.

# Tuag at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Nid bwriad yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yw nodi atebion cyflawn i'r risgiau a'r heriau rydym yn eu nodi yn ein hasesiad. Rydym yn gwneud awgrymiadau ynghylch sut gall Cymru fabwysiadu agwedd fwy integredig tuag at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy – un sy'n edrych ar y darlun cyflawn yn hytrach na chanolbwyntio ar rannau unigol.

Bydd y Gofrestr Risgiau yn caniatáu i lunwyr polisi a rhanddeiliaid eraill ystyried risgiau allweddol i gydnerthedd adnoddau naturiol Cymru a'r manteision y maent yn eu darparu.

Mae'n dangos yn eglur y cysylltiadau rhwng ecosystemau a lles, a'r risgiau posibl os nad yw ecosystemau yn gydnerth. Mae wedi'i chynllunio i gael ei defnyddio ar sail trafodaethau ag eraill – i archwilio pa risgiau sy'n peri'r pryder mwyaf. Bydd y trafodaethau hyn yn bwysig i gasglu rhagor o dystiolaeth am y mannau lle mae risgiau'n digwydd, neu'n fwy tebygol o ddigwydd. Yna gellir gosod blaenoriaethau, a datblygu atebion a fydd yn helpu i ymdrin â'r risgiau sydd yn peri'r pryder mwyaf, a'u rheoli.

Mae CNC yn argymell y dylid cryfhau rhagor ar y Gofrestr Risgiau drwy ystyried ble ceir cyfleoedd i reoli adnoddau naturiol mewn modd sy'n darparu manteision amryfal.

Mae'n bwysig peidio ag ystyried atebion i bob risg unigol ar wahân. Dylai Cymru ddatblygu atebion integredig sy'n cyfrannu cymaint â phosibl at y nodau llesiant.

# Beth am edrych ar lifogydd…

Mae'n ddefnyddiol creu darlun, fel y dengys yr enghraifft o lifogydd.

**Mae'r mapiau a gyflwynir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn dangos:**

- Nodweddion naturiol sy'n cyfrannu at reoli llifogydd (megis coed a chanddynt wreiddiau dyfnion);
- Ardaloedd a allai fod yn cyfrannu at y risg o lifogydd (megis llethrau serth neu bridd a chanddo allu cyfyngedig i ddal dŵr); ac
- Ardaloedd lle ceir cyfle i ymyrryd i leihau'r risg o lifogydd (megis ardaloedd lle gellir plannu coed).

Mantais y math yma o ddull gofodol yw y gellir ychwanegu manteision ecosystem eraill at y dadansoddiad yn rhwydd. Mae hyn yn caniatáu canfod camau gweithredu ychwanegol er mwyn creu manteision amryfal.

Er enghraifft, yn ogystal â chyfleoedd i liniaru llifogydd er mwyn diogelu pobl ac eiddo, mae'r astudiaeth achos yn edrych ar gyfleoedd i reoli erydiad pridd (i dyfu cnydau yn fwy effeithiol a dibenion eraill) ac i gynnal storfeydd carbon yn y pridd (i helpu i ymdrin â newid yn yr hinsawdd).

Yn olaf, mae gwybodaeth leol ac ymgysylltu â'r gymuned yn hanfodol er mwyn gwneud yn siŵr fod yr ymyriadau'n digwydd yn y lleoliadau mwyaf addas ac yn cael eu gwneud mewn modd sy'n cefnogi lles. Drwy drafod ac ymgysylltu gallwn benderfynu beth yw'r risgiau mwyaf arwyddocaol i gydnerthedd, a chanfod atebion wedi'u teilwra.

Mae CNC yn credu bod y dulliau hyn yn holl bwysig er mwyn ymdrin â chymhlethdodau adnoddau naturiol ac ecosystemau, a'u cyfraniad i les. Bwriadwn adeiladu ymhellach ar sail y dulliau hyn drwy ymgysylltu, deialog a chydweithredu â rhanddeiliaid.

Pan fydd y cylch cyntaf o Ddatganiadau Ardal wedi'u cwblhau, bydd ein gwybodaeth ynghylch lle ceir risgiau i gydnerthedd a lles yn cael ei bwydo i'r Adroddiad nesaf ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Bydd hyn yn helpu rhanddeiliaid i gytuno ar flaenoriaethau er mwyn gweithredu.



# Amlygu’r cyfleoedd ar gyfer polisi

Drwy gydol yr adroddiad, mae nifer o feysydd wedi ymddangos yr ydym ni’n credu eu bod yn cynnig y cyfle gorau i ymdrin â’r heriau a’r risgiau a nodwyd, a chyfrannu at y nodau llesiant. Bydd y dystiolaeth a gyflwynir ar y cyfleoedd yn cael ei hystyried ar gyfer y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ac wrth baratoi Datganiadau Ardal. Y meysydd sydd wedi ymddangos yw:

| | Dirywiad mewn adnoddau naturiol | Cydnerthedd ecosystemau | Sicrhau’r manteision mwyaf posibl | Lleihau cymaint â phosibl ar effeithiau negyddol |
|---|---|---|---|---|
| **Seilwaith gwyrdd mewn, ac o amgylch, ardaloedd trefol** | | Cyfrannu at gysylltedd o fewn a rhwng ecosystemau | Manteision amryfal mannau gwyrdd trefol megis hidlo dŵr, lleoedd hygyrch ar gyfer iechyd a hamdden, cynefinoedd cysylltiedig, a chefnogi cyfleoedd ar gyfer cydlyniant cymunedol | Ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd ac ansawdd aer |
| **Cynyddu’r gorchudd gan goetiroedd, a dod â mwy o’n coetiroedd presennol dan reolaeth addas** | Bydd yn mynd i’r afael ag adnodd coetiroedd | Cyfrannu at amrywiaeth a chysylltedd coetiroedd | Manteision amryfal coetiroedd, gan gynnwys manteision iechyd a hamdden, ffibr a thanwydd, a chyfleoedd ehangach i reoli dalgylch | |
| **Rheoli ardaloedd arfordirol ac adlinio dan reolaeth** | Ymdrin â chywasgu arfordirol | Cefnogi cynefinoedd arfordirol | Cefnogi cymunedau arfordirol, er enghraifft drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth a chyflogaeth | Gwarchod rhag llifogydd arfordirol/cynnydd yn lefel y môr yn y dyfodol |
| **Cynnal, gwella ac adfer gorlifdiroedd a systemau hydrolegol** | Argaeledd dŵr | Capasiti dalgylchoedd i ymdrin â llifau uchel ac isel; cefnogi ansawdd dŵr | Cefnogi hamddena a gweithgarwch economaidd | Gwarchod rhag llifogydd arfordirol/cynnydd yn lefel y môr yn y dyfodol |
| **Gwell rheolaeth ar briddoedd** | Buddsoddi mewn priddoedd ar gyfer cynhyrchiant i’r dyfodol | Priddoedd yn sail i bopeth | Atal erydiad, cefnogi cynefinoedd a manteision eraill | Erydiad, costau trin dŵr ac ati |
| **Defnyddio ein hucheldiroedd i greu manteision amryfal** | Adfer mawndir, diogelu storfeydd carbon | Cydnerthedd ehangach cynefinoedd yr ucheldir a’r iseldir a’r rhywogaethau sy’n dibynnu arnynt | Gwneud gwell defnydd o asedau naturiol Cymru | Ymdrin â newid yn yr hinsawdd; lleihau’r risg o lifogydd |

**Fel cymdeithas, mae’n rhaid i ni acub ar y cyfleon hyn, a sicrhau ein bod yn gweithredu**

# Y Camau Nesaf

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn galluogi'r rhai sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus i ddechrau ystyried y risgiau allweddol i gydnerthedd ein hadnoddau naturiol a'r manteision y maent yn eu darparu.

**Bydd CNC yn datblygu rhagor ar y ffordd hon o weithredu. Bwriadwn...**

- Ddatblygu gwell mesurau i'n galluogi i asesu lefel y risg, a'r cyfraniad at les;
- Datblygu ein dull o asesu cydnerthedd ar wahanol raddfeydd, gan ddefnyddio offer mapio a ffyrdd o asesu 'gwerth';
- Parhau i wella ein dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng adnoddau naturiol, cydnerthedd ecosystemau, a lles; ac
- Yn sgil y pwys a roddir ar ddulliau gweithredu cydgysylltiedig, gweithio gyda chyrff eraill i fireinio'r defnydd o'r Gofrestr Risgiau fel arf cymorth ar gyfer cynllunio integredig.

Er mai gwaith ar y gweill yw hyn o hyd, mae gan Gymru'r cyfle i ddefnyddio'r fframwaith deddfwriaethol newydd ac ymchwil sy'n dod i'r fei i wella'r dull o ymwneud â rheoli adnoddau naturiol. Y nod, ar sail yr adroddiad cyntaf hwn, yw casglu'r wybodaeth y mae arnom ei hangen er mwyn gallu ei bwydo i mewn i'r penderfyniadau cymhleth sy'n cael eu gwneud ar y defnydd o adnoddau naturiol.



# Torri tir newydd…

Gobeithio bod yr Adroddiad cyntaf hwn ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol wedi bod yn un dadlennol ichi.

Dyma'r asesiad cyntaf ledled y wlad o iechyd a chydnerthedd ecosystemau. Dyma'r asesiad cyntaf sy'n gofyn i ba raddau y mae Cymru'n rheoli ei hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Dyma hefyd yr asesiad cyntaf o gyfraniad adnoddau naturiol i les, ac mae'n cadarnhau cysylltiad clir rhwng adnoddau naturiol a phob un o'r nodau llesiant. Yn olaf, dyma'r tro cyntaf y mae Cofrestr Risgiau adnoddau naturiol a lles wedi cael ei defnyddio yng Nghymru.

# Hoffem glywed gennych…

Mae arnom eisiau clywed gennych os oes gennych dystiolaeth am sefyllfa adnoddau naturiol yng Nghymru, cydnerthedd ecosystemau, neu eu cyfraniad at les. Mae arnom hefyd eisiau clywed eich syniadau am sut i wella ein prosesau asesu ac adrodd, a allai ein cynorthwyo i ddatblygu Adroddiadau ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn y dyfodol.

1. Sut gallech ddefnyddio'r dystiolaeth yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol i'ch helpu i gyflawni eich nodau/amcanion?

2. Sut gallech gymhwyso'r dull o ymwneud â chydnerthedd a lles i'ch maes diddordeb penodol chi? Sut mae arnoch angen i ni eich helpu chi?

3. Sut gallwn ddatblygu'r dulliau a gyflwynir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (megis y Gofrestr Risgiau adnoddau naturiol a lles) i'w wneud yn fwy defnyddiol i chi?

4. Beth gallwch chi ei gynnig a fydd yn ein helpu i ddatblygu'r Adroddiad nesaf ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol?

Cysylltwch â ni ar **sonarr@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

# Mae'r daith yn parhau…

Dim ond dechrau taith ein Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yw hon, er mwyn gwella'r rheolaeth ar adnoddau naturiol. Ni allwn wrthdroi tueddiadau tymor hir dros nos. Dim ond unwaith mewn cenhedlaeth y cawn y cyfle hwn.

Bydd mabwysiadu agwedd gydgysylltiedig at reoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yn ein helpu i ymdrin â hen broblemau mewn ffyrdd newydd - i ganfod gwell atebion i'r heriau yr ydym yn eu hwynebu – a chreu Cymru sy'n fwy llwyddiannus, yn iachach ac yn fwy cydnerth, yn awr ac yn y dyfodol.

Gyda'n gilydd, gallwn wella sefyllfa adnoddau naturiol Cymru, a darparu hyd yn oed mwy o fanteision i bobl Cymru.

**Edrychwn ymlaen at glywed gennych.**